

## Cynllun Gweithdy Arglwyddes y Rhondda

gan Mab Jones

www.mabjones.com

(5 munud) Cyflwyniadau.

(10 munud) Beth nad yw pobl ifainc yn gallu ei wneud y mae oedolion yn gallu ei wneud? Trafodwch y gwahanol bethau hyn a'u gwerth cymharol, er enghraifft – mae alcohol wedi'i wahardd ond yn Ffrainc mae plant yn llymeitian gwin wrth y bwrdd bwyd; mae pleidleisio'n rhywbeth y mae oedolion yn unig yn gallu ei wneud, ond onid oes gan blant lais hefyd?

**Lluniwch restr o'r pethau nad yw plant yn gallu ei wneud mewn dau grŵp a thrafodwch y pethau hyn.**

(5 munud) A yw'n deg bod gan rai grwpiau lai o hawliau nag eraill? Pa fath o grwpiau sydd gan lai o hawliau neu hawliau gwahanol, yn awr neu yn y gorffennol?

**Trafodwch y mudiad dros hawliau i bobl dduon, hawliau i fenywod, hawliau i bobl anabl ac yn y blaen.**

(5 munud) Beth yw'r hawl i bleidleisio?

**Trafodwch.**

(5 munud) Ystyriwch y pethau nad oedd menywod yn gallu eu gwneud gan mlynedd yn ôl y mae menywod yn gallu eu gwneud yn awr. Pethau cyfreithiol a chonfensiynau cymdeithasol.

Beth a ddigwyddodd ym 1914 a newidiodd hyn oll?

(10 munud) Edrychwch ar y daflen yn erbyn yr ymgyrch i roi'r bleidlais i fenywod. Mae'r daflen yn chwarae ar yr ystrydeb o'r fenyw yn wraig tŷ a dim byd arall. Pa ystrydebau eraill sydd o'r fenyw?

**Tafwch syniadau.**

Er enghraifft, dyma swyddogaeth menywod:

Gwneuthurwyr cartrefi (glanhawraig)

Mamau sy'n magu a meithrin

Menywod parchus

Cogyddesau

Addurn i fraich dyn

Doliau i arddangos dillad

(15 munud) Beth yw'r 'rheolau' ar gyfer menyw barchus? Gan ddefnyddio darlun arferol o'r cyfnod hwnnw, rydym yn creu dau dudalen drafft o daf-len yn erbyn yr ymgyrch i roi'r bleidlais i fenywod.

**Gweithgaredd grŵp – rhowch ddau ddarlun mawr i fyny o fenyw barchus arferol â label ar yr un 'Dylai wneud hyn' ac ar y llall 'Ni ddylai wneud hyn' ar y wal neu'r bwrdd gwyn a bydd pob un yn ys-grifennu rhywbeth ar y ddau ddarlun.**

(15 munud) Ystyriwch yr ymgyrch i ennill y bleidlais i fenywod a bywyd y swffragetiaid gan gynnwys Arglwyddes y Rhondda - a oeddynt yn rhai o'r pethau a ysgrifennwyd ar y darluniau? Pa fath o bethau yr oeddynt wedi'u gwneud a oedd yn annisgwyl yn achos 'menyw barchus'?

(10 munud) Darllenwch gerddi/caneuon y swffragetiaid – The March of the Women, Shoulder to Shoulder, Rise Up Women!, The Women's Battle Song.

Ymhle y byddai menywod yn canu'r caneuon hyn? Ar orymdeithiau a gwrthdystiadau.

**Safwch a darllenwch/cenwch y rhain tra byddwch yn gorymdeithio o amgylch yr ystafell.**

(5 munud) Pa ffactorau sy'n gyffredin iddynt?

**Odl, rhythm, iaith sy'n cyffroi teimladau.**

**Penillion a chytgan.**

Dewiswch deitl i'n cân.

(10 munud) A oes slogan yn y gytgan? Sawl llinell y dylai fod yn y gytgan? Ysgrifennwch gytgan gyda'ch gilydd mewn grŵp.

(15 munud) Beth a fydd testun y penillion? Dewiswch dri phwnc neu dair thema, wedyn rhannwch y dosbarth yn dri ac ysgrifennwch y penillion hyn. Sawl llinell a fydd?

(5 munud) Rhannwch yr hyn a ysgrifennwyd.

A oes angen golygu o gwbl? Sut y mae'r rhythm?

(5 munud) Ychwanegwch y gytgan a darllenwch y gân gyda'ch gilydd